PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

ARHOLIADAU EXAMINATIONS

ARHOLIADAU GRADD, SEMESTER 1

IONAWR 2010

ADDYSG AC ASTUDIAETHAU PLENTYNDOD

PAPUR: ED10120 POLICIES AND ISSUES IN EDUCATION

AMSER: DWY AWR

ATEBWCH <u>DDAU</u> GWESTIWN

1. Rhowch fraslun o brif ddarpariaethau Deddf Addysg 1944 ac esbonio sut roeddynt yn fuddiol i addysg gyffredinol disgyblion Prydain ar ôl y rhyfel.

2. Dewiswch DAIR o brif ddarpariaethau Deddf Diwygio Addysg 1988. I bob darpariaeth, rhowch grynodeb o ofynion y Ddeddf ac aseswch sut y buont yn effeithio ar y gyfundrefn addysg.

3. Trafodwch yn fanwl, gan ddefnyddio tystiolaeth i ategu'ch dadleuon, y feirniadaeth ar bolisïau addysg Llafur Newydd sy'n dweud nad ydynt yn 'newydd' o gwbl.

4. Cyflwynwch y dystiolaeth dros ddweud bod safonau academaidd addysg wedi gwaethygu mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, a thafodwch y dystiolaeth honno.

5. Cloriannwch yn feirniadol y dadleuon o blaid cael cyfundrefn addysg i Gymru sy'n wahanol i'r gyfundrefn addysg yn Lloegr.

6. Trafodwch yn feirniadol y rhesymau a gynigir i esbonio pam mae'r bwlch rhwng cyraeddiadau bechgyn a merched i'w weld yn mynd yn fwy.

7. Gwerthuswch a dadansoddi'n feirniadol DRI argymhelliad a gyflwynwyd gan Dearing yn *Review of Qualifications for 16-19 Year Olds*.

8. Trafodwch yn feirniadol unrhyw bwnc llosg ym myd addysg yn ystod y flwyddyn galendr ddiwethaf, gan roi braslun o sut y datryswyd y mater, neu sut y gellir ei ddatrys. Rhaid i chi ddefnyddio tystiolaeth briodol i ategu'r ateb hwn, yn hytrach na dim ond rhoi'ch barn chi'ch hun.